

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Rhondda Cynon Taf

Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Rhondda Cynon Taf i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Rhondda Cynon Taf bob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Rhondda Cynon Taf 5 yn llawn, cyflawnodd 1 yn rhannol, a methodd â chyflawni 3.

Mae Rhondda Cynon Taf wedi gweld gwelliant mewn rhai meysydd yn 2019/20, yn enwedig mewn gwahanol agweddau ar y defnydd o lyfrgelloedd, yn groes i'r duedd gyffredinol. Er bod ffigurau mewn perthynas â defnyddwyr yn parhau i fod yn is na'r canolrif yng Nghymru, rydym yn croesawu'r gwelliant hwn. Mae'r gwaith parhaus o ddatblygu canolfannau cymunedol hefyd wedi arwain at gyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer aelodau drwy adleoli tair llyfrgell, gan ddod â rhagor o weithgareddau a phartneriaethau i'r gwasanaeth llyfrgelloedd. Dylai'r gwaith arfaethedig o ddatblygu llyfrgell Treorci arwain at ragor o welliannau i berfformiad yn y dyfodol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn 2018/19, mae'r lefel isel o adnoddau yn y gwasanaeth yn gyffredinol yn parhau'n ffactor cyfyngol.

- Mae'r gwasanaeth wedi gweld cynnydd mewn nifer o agweddau ar ddefnydd, gan gynnwys: benthycwyr gweithredol; aelodau o lyfrgelloedd; benthyciadau llyfrau oedolion a phlant, ymweliadau â gwefannau a lawrlwythiadau electronig. Roedd ymweliadau corfforol wedi cynyddu erbyn mis Chwefror 2020. Er bod y cynnydd i'w groesawu, mae'r gwasanaeth yn y chwarterel isaf ar gyfer sawl elfen ar ddefnydd.
- Mae lawrlwythiadau electronig wedi cynyddu 70% er 2017/18, yn unol â'r patrwm ledled Cymru.
- Mae buddsoddi mewn deunyddiau Cymraeg a hyrwyddo deunyddiau Cymraeg wedi gweld cynnydd i'w groesawu mewn benthyciadau, ac mae DA 10 yn parhau i gael ei gyflawni, gan adlewyrchu gwelliant er 2017/18.
- Yn anffodus, mae perfformiad mewn cysylltiad â chyflenwi ceisiadau (DA 12) wedi dioddef oherwydd Covid-19 ac mae Rhondda Cynon Taf yn un o chwe gwasanaeth nad yw wedi cyflawni'r targedau yn y maes hwn yn 2019/20. Mae hyn yn drueni gan fod y gwasanaeth wedi gweithio'n galed yn y blynyddoedd blaenorol i gyflawni'r targed.
- Fel y rhan fwyaf o'r gwasanaethau llyfrgell eraill yng Nghymru, nid yw Rhondda Cynon Taf yn bodloni'r targed ar gyfer cyfanswm y staff na'r targed ar gyfer lefel y staff proffesiynol. Er hyn, mae'n buddsoddi yn ei staff drwy gefnogaeth ar gyfer cymwysterau a gobeithir y gellir cyflawni'r targed proffesiynol yn y dyfodol.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

2.1 Hawliau craidd

Mae Rhondda Cynon Taf yn parhau i gyflawni pob un o'r 12 Hawl Graidd yn llawn, ac ni fu unrhyw newidiadau arwyddocaol er 2018/19.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith Covid-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, sef pump, chwech a phymtheg, ac o'r rhain, roedd rhif chwech yn cynnwys targed. O'r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019/20, mae Rhondda Cynon Taf yn cyflawni 5 ohonynt yn llawn, yn cyflawni 1 ohonynt yn rhannol, ac yn methu â chyflawni 3 ohonynt.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	√	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	√	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwd	√	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	√	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Heb ei gyflawni
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	x	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	x	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth	x	Heb ei gyflawni

Mae Rhondda Cynon Taf wedi cynnal ei berfformiad yn nhrydedd flwyddyn y chweched fframwaith, a gwelwyd gwelliant mewn gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg er 2017/18.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn

cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Rhondda Cynon Taf ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion a'i arolwg o ddefnyddwyr sy'n blant ym mis Medi/Hydref 2018.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	96%	=6/19	60%	90%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	90%	=3/19	41%	85	99%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Rhondda Cynon Taf ddwy astudiaeth achos o'r fath:

- Dydd Gwener Digidol – Menter yn Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf i helpu unigolion â'u sgiliau TG. Mae hwn yn wasanaeth sy'n cefnogi'r unigolion hynny sydd angen help neu gyngor â phroblem TG. Mae un aelod yn disgrifio'r effaith gadarnhaol y mae'r gwasanaeth hwn wedi'i gael ar ei allu digidol.
- Crefftau yn y Llyfrgell – adleoli llyfrgell Aberpennar a'r effaith ar grŵp 'Gwau a Chlonc'. Mae'r hyb cymunedol newydd yn darparu amgylchedd modern y gall pobl ymlacio ynddo. Gan fod grwpiau cymunedol eraill yn defnyddio'r lle mae aelodau o'r grŵp 'Gwau a Chlonc' wedi dechrau ymwneud â'r gymuned ehangach, gan wella eu llesiant a chael effaith gadarnhaol ar eu bywyd cymdeithasol.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y manau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu

cymharu. Cyfrifir y dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2018/19
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth						[Fframwaith 6]
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	75%	11/18	25%	75%	94%	75%
c) iechyd a lles	58%	=13/19	38%	69%	96%	58%
d) lle diogel a chroesawgar	97%	=7/19	90%	96%	100%	97%
DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid						[Fframwaith 6]
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	92%	6/18	78%	91%	99%	92%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	99%	=3/18	88%	97%	100%	99%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	88%	=10/17	66%	85%	99%	88%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	97%	=10/18	85%	96%	100%	97%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.5	=1/19	8.0	9.1	9.5	9.5
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	2,968	19/22	2429	3987	6874	3,044
b) rhith-ymweliadau fesul pen	615	15/22	239	909	2131	481
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	78	22/22	78	145	244	58
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen ²	565	14/22	311	680	1468	458
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul 10,000	7	17/22	4	9	14	8
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	21%	=16/22	14%	30%	64%	22%
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£9,832	15/22	£7,260	£12,448	£23,333	£9,434
b) % ar staff	72%	4/22	48%	61%	76%	76%
% ar adnoddau gwybodaeth	13%	=6/22	5%	13%	22%	14%
% ar offer ac adeiladau	2%	=17/22	0%	8%	28%	2%
% ar gostau gweithredol eraill	13%	=15/22	1%	18%	35%	8%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£511	10/22	£0	£1,567	£13,027	£300
DA 16 – Oriau agor ³						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.23%	3.96%	0.00%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	=1/22	0.00%	1.07%	5.41%	7.01%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; ² fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ³ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)ⁱ

Cynhaliodd Rhondda Cynon Taf ei arolwg oedolion a'i arolwg plant yn hydref 2018, ac roedd bodlonrwydd cwsmeriaid yn parhau'n uchel. Ni fu unrhyw newidiadau o ran cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol drwy gydol y fframwaith, ac mae pob agwedd yn cael ei bodloni. Mae pob llyfrgell sefydlog yn parhau i ddarparu cefnogaeth ar gyfer iechyd a llesiant, a gwelwyd cynnydd yn y partneriaethau gwybodaeth am iechyd a'r gweithgareddau ymwybyddiaeth o iechyd meddwl er 2018/19. Mae pob un o'r staff wedi cael hyfforddiant i fod yn ystyriol o Dementia ac mae gan bob cangen hyrwyddwr dementia.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)ⁱⁱ

Mae Rhondda Cynon Taf yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, â 13 o fannau gwasanaeth sefydlog ar agor 10+ awr yr wythnos. Er bod cynnydd bach wedi bod yng nghyfanswm yr ymweliadau â safleoedd llyfrgell yn 2019/20, mae'r gwasanaeth yn priodoli hyn i lai o ymweliadau ym mis Mawrth, yna cau llyfrgelloedd o ganlyniad i Covid-19. Roedd ffigurau ymwelwyr ym mis Chwefror 2020 yn uwch na ffigurau ar gyfer yr un cyfnod yn 2019. Mae'r gwasanaeth wedi gweld cynnydd mewn nifer o feysydd eraill: benthycwyr gweithredol; aelodau o lyfrgelloedd; benthyciadau llyfrau oedolion a phlant, ymweliadau â'r wefan a lawrlwythiadau electronig. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod modd priodoli'r cynnydd mewn benthycwyr gweithredol i'r ffaith fod aelodau sy'n dewis teitlau ar-lein drwy'r catalog erbyn hyn yn cael eu cynnwys yn y rhestr benthycwyr gweithredol. Mae lawrlwythiadau electronig wedi cynyddu 70% er 2017/18, yn unol â'r patrwm ledled Cymru.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱⁱⁱ

Mae'r gyllideb deunyddiau wedi gostwng ychydig yn 2019/20, ond mae'r gwasanaeth yn nodi bod stoc a archebwyd ym misoedd Chwefror a Mawrth, oherwydd effaith Covid-19, heb gyrraedd cyn i'r llyfrgelloedd gau, ac o ganlyniad bod yr anfonebau heb eu prosesu, a bod hynny wedi arwain at lai o wariant yn 2019/20. Mae'r gyllideb ddeunyddiau wedi gostwng 13% er 2017/18 ac mae'r gwasanaeth yn un o ddau ar bymtheg o awdurdodau nad ydynt wedi cyflawni'r targed caffael (DA 9) yn 2019/20. Mae canran y gwariant ar ddeunyddiau i blant wedi aros yr un fath, sef 15%. Gwelwyd gostyngiad yn y gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg, ond mae DA 10 yn parhau i gael ei gyflawni, gan adlewyrchu gwelliant er 2017/18, sydd drwy hyrwyddo a mwy o bryniannau wedi'u targedu wedi gweld cynnydd braf ei weld mewn benthyciadau llyfrau Cymraeg. Gwelwyd gostyngiad bach iawn yn y ddarpariaeth cyfrifiaduron personol a'r defnydd ohonynt, ac mae'r defnydd yn is na'r canolrif yng Nghymru. Mae perfformiad mewn cysylltiad â chyflenwi ceisiadau (DA 12) wedi gostwng ac mae Rhondda Cynon Taf yn un o chwe gwasanaeth nad yw'n cyflawni'r targedau yn y maes hwn yn 2019/20. Mae'r gwasanaeth yn nodi y gallai adleoli tair cangen fod yn ffactor sydd wedi cyfrannu tuag at hyn, ynghyd â Covid-19. Bydd methu â chyflawni'r targed hwn eleni yn siom i'r gwasanaeth gan ei fod wedi gweithio'n galed i'w gyflawni yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)^{iv}

Mae nifer y staff yn parhau'n is na'r canolrif yng Nghymru ac nid yw'r awdurdod yn cyflawni yr un o'r targedau staffio. Ni fu unrhyw newidiadau o ran nifer y staff cymwysedig. Er hyn, mae'r gwasanaeth yn parhau i gefnogi dau aelod o'r staff i gwblhau astudiaethau dysgu o

bell, er mwyn gwella'r lefelau staffio proffesiynol. Mae gan y gwasanaeth arweinyddiaeth gymwysedig o hyd.

Gwelwyd cynnydd bach yng nghyfanswm y gwariant refeniw er 2018/19, a dim ond 0.8% yw'r gostyngiad er 2017/18. Mae gwariant fesul pen o'r boblogaeth yn parhau'n is na'r canolrif. Mae'r oriau agor blynyddol cyfanredol wedi cynyddu 1.7% er 2017/18 ac maent yn parhau ychydig yn is na'r targed (DA 16). Mae Rhondda Cynon Taf yn un o saith gwasanaeth sydd heb gyflawni'r targed hwn yn 2019/20. Ni roddwyd gwybod am unrhyw oriau agor heb staff, achosion heb eu cynllunio o gau gwasanaeth, na methu arosfannau llyfrgell deithiol.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a'i nodau strategol. Mae Rhondda Cynon Taf yn parhau i adrodd ar ei gyfraniad i'r themâu trawsbynciol a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys ffyniannus a diogel, iach ac egniol, uchelgeisiol ac yn dysgu ac unedig a chysylltiedig. Nodir bod y weledigaeth ehangach ar gyfer y gwasanaeth i'w gweld yn y Cynllun Llyfrgelloedd (2019-21). Yn 2019/20 cafodd tair llyfrgell yn Rhondda Cynon Taf eu hadleoli i ffurfio hybiau cymunedol. Mae hyn wedi galluogi llyfrgelloedd i weithio'n fwy effeithiol gyda phartneriaid er mwyn hyrwyddo gwasanaethau llyfrgell a chynnal mwy o weithgareddau a digwyddiadau, gan arwain at fwy o ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r gwasanaeth yn nodi ei gyfranogiad yn ymgyrch 'Byw'n Dda yng Nghymru', lle roedd llyfrgelloedd yn darparu gweithgareddau yn ymwneud â dementia, dyslecsia a chynhwysiant, ac yn llwyddo i gael effaith ar iechyd a llesiant y gymuned.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddilynol, mae Rhondda Cynon Taf yn nodi ymrwymiad i barhau i gefnogi gwaith y Cyngor o ddatblygu hybiau cymunedol, yn enwedig datblygu hyb diwylliannol yn llyfrgell Treorci. Mae'r blaenoriaethau eraill a nodwyd yn strategaeth y llyfrgell yn cynnwys: gwella'r ddarpariaeth TGCh; datblygu modelau darparu gwasanaeth newydd; datblygu sgiliau staff; darparu mwy o gyfleoedd dysgu a sicrhau bod y gwasanaeth danfon i'r cartref yn bodloni anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid. Mae Covid-19 wedi effeithio ar y ffordd y mae'r aelodau'n defnyddio gwasanaethau llyfrgell ar-lein, a bydd Rhondda Cynon Taf, fel pob gwasanaeth yng Nghymru, yn ystyried sut y bydd angen iddo addasu wrth i ddisgwyliadau cwsmeriaid newid.

6 Casgliad

Mae Rhondda Cynon Taf wedi gweld gwelliant mewn rhai meysydd yn 2019/20, yn enwedig mewn gwahanol agweddau ar y defnydd o lyfrgelloedd, yn groes i'r duedd gyffredinol. Er bod ffigurau mewn perthynas â defnyddwyr yn parhau'n is na'r canolrif yng Nghymru, rydym yn croesawu'r gwelliant hwn. Mae'r gwaith parhaus o ddatblygu canolfannau cymunedol hefyd wedi arwain at gyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer aelodau drwy adleoli tair llyfrgell, gan ddod â rhagor o weithgareddau a phartneriaethau i'r gwasanaeth llyfrgelloedd. Dylai'r gwaith arfaethedig o ddatblygu llyfrgell Treorci arwain at ragor o welliannau i berfformiad yn y dyfodol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn 2018/19, mae'r lefel isel o adnoddau yn y gwasanaeth yn gyffredinol yn parhau'n ffactor cyfyngol.

-
- i Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.*
 - ii Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.*
 - iii Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgrifiadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.*
 - iv Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.*